# CYNGOR CYMUNED MAENTWROG

## Cofnodion Cyfarfod 03/03/2026

Presennol: Heulwen Parry, ~~Eirian Hoyle~~ Chr, Rebecca Phasey, Gareth Jones, Eurwyn Jones

1. Ymddiheuriadau: Francesca Williams, Meredydd Williams, Elfed Roberts, EIRIAN Hoyle Chr

2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir: RP, HP

2a. Datgan Diddordeb: Heulwen Parry i pwynt 3.703

<u>3. Materion yn codi o'r cofnodion</u>

3.698 Cae chwarae Gellilydan – ymateb wedi ei dderbyn gan Steffan Jones.

***Ymddiheuraf yn ddiffuant am yr oedi yn dod yn ôl atoch ers ein cyfarfod safle rai misoedd yn ôl erbyn hyn***

***Diolch am drefnu'r cyfarfod safle ym maes chwarae ger yr ysgol yn Gellilydan gyda rhai o'r Cynghorwyr. Fel aeth y sgwrs ymlaen penderfynwyd ein bod am drefnu i drwsio'r ffens sydd wedi torri rhwng yr ysgol a'r maes chwarae. Yr ydym hefyd am edrych i weld sut y gallwn rhwystro'r dŵr sy'n rhedeg o dir Adra i'r maes chwarae.***

***Fel y nodwyd, mae'r maes chwarae wedi ei gofrestru fel eiddo i Gyngor Gwynedd. Er mwyn symud ymlaen, rydym wedi amlinellu dau opsiwn:***

- ***Opsiwn 1: I Gyngor Gwynedd gymryd cyfrifoldeb llawn am y maes chwarae, gan edrych ar ffynonellau grant i wella'r lloriau diogelwch o dan yr offer chwarae. Bydd hyn yn golygu cau'r maes chwarae bach ar stad Y Glynnor trwy dynnu'r offer chwarae o'r safle hwnnw.***

- ***Opsiwn 2: I Gyngor Gwynedd drwsio'r ffens a datrys y broblem dŵr, ond i'r maes chwarae barhau o dan gyfrifoldeb y Cyngor Cymuned. Bydd angen ffurfioli les ysgrifenedig i drosglwyddo'r maes chwarae i berchnogaeth y Cyngor Cymuned.***

***Byddem yn ddiolchgar pe gallech ystyried yr opsiynau hyn a chadarnhau pa un yr hoffech i ni ei weithredu arno . Bydd eich penderfyniad yn ein galluogi i symud ymlaen gyda'r gwaith angenrheidiol er budd y gymuned leol.***

Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd fynd gyda'r opsiwn gyntag. Clerc i ymateb a gofyn wrthynt am roi hysbysiad fyny i roi gwybod i'r cyhoedd bod newid yn rheolaeth y cae chwarae, hefyd i roi dyddiad i'r Cyngor Cymuned er mwyn sicrhau bod y newid yn cael ei nodi gyda'r cwmni yswiriant.

3.699 Tir ger Gors Fach / Coed Gors Fach – ER wedi cyfarfod a Grŵp Cynefin, nid oes adroddiad wedi ei dderbyn hyd yma, cadw mlaen.

3.700 'Sovereign' – Archwiliad i'w gynnal ar yr 20fed o Fawrth.

3.701 Sedd wag – dim diddordeb wedi ei ddangos, cadw mlaen.

3.702 Arwyddion Gellilydan – yn dilyn ymateb Iwan ap Trefor, clerc i gysylltu i gael cadarnhad o pryd y bwriedir gosod yr arwyddion ar y ffordd.

3.703 Cae chwarae Maentwrog – Yn dilyn trafodaeth o fewn y cyngor, penderfynwyd gytuno ar y pris o £665 i gael gwblhau y gwaith ar frys.



HP

3.704 Hen Bôst, Gellilydan – ER am gysylltu a Thîm Tacluso Bro, cadw mlaen.

3.705 Gelli Dywyll – Ymateb wedi ei dderbyn gan Laith Jawzi:

Diolch am eich ymholiad ynghylch Gelli Dywyll, Cwm Cynfal.

***Yn anffodus, gan nad ydy'r adeilad hwn wedi'i restru, mae'n dod y tu allan i gylch gwaith Cadw.***

***Gellir dod o hyd i fanylion yr holl adeiladau rhestredig yng Nghymru yma:***
***Chwilio cofnodion Cadw | Cadw***

***Mae'n ddrwg gennyf am unrhyw siom.***

3.706 – Torri coed – Gofeb – Meredydd Williams am gysylltu a Ben o Hoschief, cadw mlaen.

3.707 Bryn Arms – clerc i ail-gysylltu a Rhydian Roberts i ofyn am adroddiad.

3.708 Blwch Pôst gyferbyn a Tanws Maentwrog – ER am gysylltu ac Adrian Williams o Gyngor Gwynedd, cadw mlaen.

3.709 Gordyfiant Nant y March – disgwyl ymateb gan Adrian Williams yn dilyn asesiad gan beirianwyr Cyngor Gwynedd.

4.Materion i'w Trafod:

4.299 Rheolau Ariannol ac Rheolau Sefydlog – Cafwyd eu cymeradwyo yn y Cyfarfod 03/03/2026.

4.300 Penderfynwyd gynyddu'r pris i £1000 cyn bod angen ceisio am ddyfynbrysiau pellach.

4.301 Asedau y Cyngor – angen ychwanegu y Gofeb i asedau'r Cyngor,

4.302 Bancio ar-lein – Eirian Hoyle am gael rhagor o fanylion.

4.303 Lwfans y Cynghorwyr - Penderfynwyd gan y cynghorwyr a oedd yn bresennol na fyddent yn hawlio y lwfans.

4.304 Tir dros ffordd I Tan y Foel – clerc i gysylltu gyda'r adran 'Cofrestr Tîr.

4.305 Adroddiad Archwilydd Cymru – copi wedi ei anfon i'r cynghorwyr er mwyn ystyried y sylwadau a godwyd a chymryd camau priodol yn y dyfodol.

4.306 Alys Rees Jones – Grant Neuadd y Pentref – manylion banc ac anfonebau wedi eu hanfon mewn – taliadau wedi eu gwneud gan Cyngor Gwynedd

5. Ariannol

5.233 Cyfrif Cadw: £229.88

5.234 Cyfrif Cyfredol: £2196.11

Cytunwyd i dalu y canlynol:

5.235 Sarah Dafis - £80.00

5.236 CFFi - £50.00

14/04/26

5.237 Owain Aeron: £665.00

6. Cynllunio

Dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau canlynol:

6.776 NP5/73/LB74X – Plas Dol y Moch, Maentwrog - Codi estyniad mewnlenwi unllawr o fewn adain cwrt y gegin a mân newidiadau.

6.777 NP5/73/LB74W – Plas Dol y Moch, Maentwrog – Caniatâd Adeilad Rhestredig.

7. Gohebiaeth

300. National Grid – newyddion diweddaraf ar y prosiect.

301. Grŵp Cyswllt Cymunedol - Cyfarwyddiadau ar sut i gyrraedd safle prosiect Darpariaeth Effaith Weledol Eryri.

302. Un Llais – Cofnodion Pwyllgor Ardal Meirionydd.

303. Archwiliad Cymru – Cwblhau Archwiliad.

304. Cyngor Gwynedd – Polisi Cynllunio.

305. Huw Antur Edwards / Mark Gahan – Grantiau.

306. Yr Ysgwrn – digwyddiadau Pasg.

8. Adroddiad o Gyfarfodydd eraill

8.37 Llywodraethwyr yr Ysgol – Dim newyddion hyd hyn yn dilyn ymweliad Estyn.

9. Mynwent Dwyryd

9.90 Cyfrif y Fynwent: £21880.04

9.91 Mynwent Dwyryd: Llythyr wedi ei anfon at Mr a Mrs Rix, dim ymateb hyd hyn.

9.92 Safle parcio – Ni ddangoswyd unrhyw ddiddordeb gan y pensaer Vaughan Heaney, disgwyl ymateb gan Dobson Owen cyn gall benderfyniad terfynol ei wneud.

Dyddiad Cyfarfod Nesaf

14eg Ebrill 2026 am 6.30 o'r gloch, Neuadd y Pentref, Gellilydan.

10. Neuadd y Pentref, Gellilydan

Trafodaeth i ddilyn cyfarfod y cyngor gyda'r ymddiriedolwyr.

14/04/26 HP